



rhaid atal gwallgofrwydd taflegrau UDA!



graffig: Dai Owen

Y TU FEWN: Ray Davies yn cael hapusrwydd yn Faslane Clinton yn osgoi penderfynu ar "amddiffyn taflegrau" yr UD Hiroshima a Nagasaki: byth yn anghof o Gymru i Iwgoslafia - stori wir

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

Clinton yn osgoi penderfyniad ond y paratoadau'n parhau

Mae'r Pentagon wedi gohirio penderfynu p'run ai i fwrw ymlaen â rhaglen ATC yr UD. Gallai fod yn ffactor bwysig yn etholiadau arlywyddol sydd wrth law. Mae'r Gweriniaethwr George Bush am fwrw ymlaen â rhaglen fwy a 'gwell' byth tra bod y Democrat Gore yn fwy pwyllog. Mae arolygon barn yn dangos fod y cyhoedd yn America yn gwrthwynebu. Symudwyd y dyddiad gwreiddiol, 2005, yn ôl flwyddyn o leiaf. Dwedodd Clinton y byddai'n ystyried ymarferoldeb technegol, y gost, perygl y bygythiad taflegrau yn erbyn yr UD, a'r effaith ar reolaeth ar arfau. Dyw hi ddim yn glir pa un o'r ffactorau hyn fyddai bwysica mewn unrhyw benderfyniad, ond dwedodd nad yw'n "gwbl hyderus" am y dechnoleg bresennol.

Mae gwahaniaeth barn ar ATC ymhlith swyddogion y Pentagon. Mae rhai'n dweud fod arfau niwclear a danir o longau neu sy ym meddiant brawychwyr yn fwy o fygythiad, a bod canolbwyntio ar dechnoleg ATC yn anwybyddu ffactorau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol allai wneud bygythiad yn llai tebyg. Dywed erthygl yn 'The Progressive' fod yr Adran Wladol "wedi gwneud y nesaf peth at ddim i gefnogi'r broses heddwch sy'n digwydd yn nwyrain Asia. ... Y broblem yw fod heddwch yn Korea wedi troi trol y Pentagon a dinistrio bwgan perffaith o ran creu cefnogaeth i'r gwariant anllad ar amddiffyn".

Pryder rhyngwladol

Yn ôl Ysgrifennydd Amddiffyn yr UD, William Cohen, mae darbwyllo cynghreiriaid NATO i dderbyn y project yn brif flaenoriaeth, ac ni all y project lwyddo hebddyn nhw. Dwedodd hefyd fod pwysau gan Brydain wedi cyfrannu at ohirio penderfynu (felly rhaid i ni ddal ati). Mae Robin Cook wedi dweud wrth yr UD na ddylai gymryd yn ganataol y bydd Prydain yn cefnogi'n otomatig.

Ymateb Rwsia, sy wedi bod yn dweud y gyhoeddus mai bwriad y rhaglen ATC yw rhoi'r gallu i'r UD i ymosod gyntaf, i benderfyniad Clinton i oedi oedd galw o'r newydd am ddileu arfau niwclear ar raddfa eang. Mae'r Arlywydd Putin wedi galw am drafodaethau newydd ar gytundeb cwtogi ar arfau Start III, ond atgoffodd yr UD yn ddiweddar na fyddai cwtogi pellach yn bosibl oni fyddai Cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig 1972 yn cael ei anrhydeddu. Ac, yn Uwch-Gynhadledd Mileniwm diweddar y CU yn Efrog Newydd, galwodd Putin am roi terfyn ar "filitareiddio'r gofod." Mae Putin wedi cynnig croesawu cynhadledd ryngwladol ar atal militareiddio'r gofod ym Mosgo y flwyddyn nesaf. Mae'r Arlywydd Clinton wedi pwysleisio pwysigrwydd darbwyllo Rwsia nad yw ATC yn fygythiad i sadrwydd rhyngwladol. Mae Tsieina wedi defnyddio fforwm de-ddwyrain Asia i fynegi ei dicter ynglyn â chynlluniau'r UD. Mae Norwy wedi gofyn am amddiffyniad yr UD yn erbyn ymosodiad posibl gan Rwsia ar ei gorsaf radar. Pasiodd Plaid Lafur Awstralia gynnig yn gwrthwynebu ATC. Pe bai ATC yn digwydd, byddai Tsieina, India a Phakistan bron yn sicr o gynyddu eu harfogaeth niwclear.

Mae Greenland am glywed safbwynt Rwsia, a fydd hi ddim yn torri'r Cytundeb Gwrth-Daflegrau Ballistig. Mae llywodraeth Denmarc, y mae ei

chaniatâd i ddefnyddio'r orsaf radar yn Thule yn Greenland yn hanfodol ar gyfer ATC, hefyd wedi mynegi pryder ynglyn â thori'r Cytundeb GDB. Dyw gwleidyddion blaenllaw Greenland ddim am fod yn rhan o ATC. Mae Greenland yn llai tebygol o ymddiried yn UDA wedi'r dadleniad diweddar fod bom niwclear UD heb ei ffrwydro yn dal i orwedd ar wely'r môr ger Thule wedi i awyren fomio niwclear B52 yr UD ddisgyn yno ym mis Ionawr 1968.

Er bod Clinton wedi gohirio penderfynu ar ATC, dywedir fod y gwaith o adeiladu seiliau cyfleusterau estynedig i'r UD yn Fyngdales, Swydd Efrog, yn mynd yn ei flaen.

Beth yw Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol (ATC) yr UD?

System wrth-daflegrau balistig, wedi ei rheoli â radar yw system ATC arfaethedig yr UD, â'r diben o saethu i lawr unrhyw daflegrau niwclear (neu gemegol neu fiolegol, o bosib) pellter-maith sy'n bygwth UDA. Mae'r fath systemau wedi eu gwahardd o dan Gytundeb GDB 1972 rhwng y cyn-Undeb Sofietaidd ac UDA. Bydd rhan o'r system reoli a gorsafoedd radar wedi eu lleoli yn Menwith Hill a Fylingdales yn swydd Efrog ac yn Thule yn Greenland.

Felly beth sy'n bod ar hynny?


Y gwrthwynebiad sylfaenol yw pe bai gan wladwriaeth arfau niwclear a 'tharian' GDB, byddai'n credu, yn anghywir, na allai neb ei tharo yn ôl. Byddai'n demtasiwn iddi wedyn i ddefnyddio ei harfau niwclear ei hun i daro gyntaf, a chychwyn rhyfel niwclear. Mewn gwirionedd, ni all yr un system roi diogelwch 'amddiffynno!'

At hynny, y ffordd amlwg i oresgyn system GDB yw i'r 'gelyn' fynd ati i'w llethu drwy gynyddu effeithiolrwydd eu taflegrau pellter-maith drwy ychwanegu mwy o ergydion niwclear i 'gamarwain' y system. Gallent hefyd ddefnyddio arfau fel taflegrau cruise neu daflegrau pellter-byr na all system GDB eu hatal.

Mae gwladwriaethau â'r adnoddau gwyddonol a thechnegol hyd yn oed i ystyried sefydlu system GDB yn mynd i fod ag arfau niwclear hefyd. Felly, gwelir unrhyw ymgais i sefydlu'r fath system fel gweithred elyniaethus yn hytrach nag amddiffynno, yn debycach o ysgogi ras arfau a chynyddu tyndra rhyngwladol.

Byddai system o'r fath yn gwneud y systemau radar a rheoli ym Mhrydain a Greenland yn dargedau trawiad-cyntaf i unrhyw 'elyn' i'r Unol Daleithau. Mae hefyd yn tanseilio egwyddor honedig "braw-ataliaeth" y mae'r gwladwriaethau niwclear yn ei defnyddio i gyfiawnhau eu harfau niwclear, gan ddweud fod meddu'r fath arfau yn ddigon i sicrhau na fydd neb yn ymosod arny'n nhw.

Am fwy o wybodaeth neu gopi o *The Key ABM Treaty Points* cysyllter ag CND Cymru.



Wasserman copyright: '00 Boston Globe
Dist. by L.A. Times Synd.

Helen ar NATO

("Niwcs America'n Tra Oresgyn")

Mae Helen John wedi cael ei restio unwaith eto i wynebu cyhuddiadau o ddifrod troseddol ar ôl gweithred yn gynharach eleni pan sgrifennodd "No Star Wars," "Do Not Collude With Genocide," "Recognise International Humanitarian Law," "Ban Trident," "Free TP2000 Activists Angie, Ellen and Ulla" a "Ban Uranium Weapons" ar du allan yr Uchel Lys yng Nghaeredin a chanolfan ymwelwyr y senedd newydd. Mae hefyd yn wynebu carchar am wrthod talu dirwyon yn deillio o weithredu uniongyrchol di-drais yng nghanolfannau niwclear Trident yn Faslane a Coulport.

Bydd Helen ger bron llys hefyd ar y 30ain a'r 31ain o Hydref gyda Anne Lee ac Angie Zelter, ar gyhuddiad o ddifrod troseddol ym Menwith Hill. Fel aelod o Trident Ploughshares 2000, mae wedi ymrwmo i barhau i weithredu'n uniongyrchol yn ddi-drais nes i Brydain gael gwared o'i harfau niwclear anfoesol ac anghyfreithlon. Yn y deng mlynedd diwethaf, mae Helen wedi treulio cyfanswm o bron ddwy flynedd yn y carchar. Mewn anerchiad ysgrifenedig a ddanfonwyd at gyfarfod ymylol yng nghynhadledd y Blaid Lafur lle dylai fod wedi siarad, galwodd Helen am anufudd-dod sifil ar raddfa eang yn wyneb paratodau ar gyfer system "Amddiffyn Taflegrau Genedlaethol" yr UD. Dywedodd: "Fy nymuniad diffuant yw na ddylid caniatáu i ddigwyddiadau yn ymwneud â bygythiad ras arfau newydd yn y gofod ein goddiweddyd ni a gweddill y byd ... Mae'n bwysig i ni fod yn glir ynglyn â NATO. Rhaid i ni ddangos yn glir yn union beth ydyw. Yn fy marn i, nid yw NATO yn cynrychioli'r gobaith gorau sydd gennym o weithredu'r Cytundeb Gwrth-Ledaenu; yr hyn mae'n ei gynrychioli yw Niwcs America'n Tra Oresgyn.... rhaid i ni wrthwynebu ag angerdd gynlluniau Jack Straw i wadu achos ger bron rheithgor i unigolion sy'n cymryd rhan mewn anufudd-dod sifil. Os cawn ein gadael ar drugaredd barnwyr yn y wlad hon, byddwn yn yr un sefyllfa ag y cafodd protestwyr eu hunain ynddi yn yr Almaen Natsiaidd. Mae enw ein Hysgrifennydd Gwladol yn gweddu i'r dim - dyn gwellt ydy e. Dwi'n hyderu y gallwn ni, y bobl, ei wneud e'n gorsen ysis."

heddweithredni!

gellwch gysylltu â Helen John
d/o Cat Euler (01943) 468 593

Syw

Mae'r gwarchae diweddar gan gwmnïau cludiant ffyrdd â'u cefnogwyr wedi dangos nerth gweithredu uniongyrchol (a derbyn fod hynny wedi bod gyda chydysniad tawel busnes mawr a'r heddlu). Fodd bynnag, mae'r ymateb a ddenodd y gweithredoedd hyn gan y cyhoedd yn dangos y diffyg cymdeithasol yn ein cymdeithas. Roedd pobl yn cefnogi'r gweithredoedd hyn am fod unrhyw ostyngiad ym mhri petrol yn eu helpu nhw'n bersonol. Mae'n gyfleus iawn i'r llywodraeth a Busnes Mawr fod pobl yn gyffredinol yn meddwl amdany'n nhw'u hunain a'u poced yn hytrach nag ystyried eu bod yn rhan o gymdeithas a'r byd ehangach a'r amgylchedd.

Sut allwn ni argyhoeddi pobl fod cefnogaeth dorfol i weithredu uniongyrchol yn erbyn arfau niwclear a militariaeth yn eu helpu nhw'n bersonol hefyd?

Rod Stallard

pigion y newyddion

Ffrainc yn galw am arfau niwclear i'r Undeb Ewropeaidd

Testun pryder difrifol yw'r ffaith i Weinidog Tramor Ffrainc, Hubert Vedrine, alw am gyd-system arfau niwclear ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd Monsieur Vedrine fod arfau niwclear yn 'warant eithafol o barhad' ac i 'sichrau dull credadwy o anghymell, mae angen i ni fod ag un anghymellydd' (bom Ewropeaidd, mewn geiriau plaen).

heddwethredn! 'Da chi, ysgrifennwch at Robin Cook, Foreign & Commonwealth Office, Llundain SW1A 2AH a gofyn am ymateb y llywodraeth Brydeinig i'r datganiad yma.

Arwyddion fod UDA yn paratoi am ryfel

(a bod Prydain i fod yn gludydd awyrennau niwclear iddi eto)

Bydd awyrennau bomio niwclear 'Stealth' a ddisgrifir fel 'yr awyrennau mwyaf cyfrinachol, drud a brawychus yn arfogaeth yr awyrlu Americanaidd' yn cael eu lleoli ym Mhrydain o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Chafodd y cynnydd parhaol cyntaf yma yn lluoedd milwrol yr UD ym Mhrydain er diwedd y Rhyfel Oer ddim o'i drafod yn y Cabinet neu yn y Senedd, ac eto, fe'i cadarnhawyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae sawl AS Llafur, yn cynnwys Peter Kilfoyle (Liverpool Walton), Ian Gibson (Norwich North) a Tam Dalyell (Linlithgow) oll wedi mynegi pryder ynglyn â phresenoldeb arfaethedig yr awyrennau bomio a'r ymgais i osgoi trafodaeth seneddol. Mae ASau yn Rwsia yn mynd i brotestio ynglyn â'r penderfyniad a fydd yn gwaethgu'r tensiwn rhwng Rwsia a'r Gorllewin. Cyrchoedd gan awyrennau bomio B52 yr UD o Fairford yn ystod ymgyrch fomio Iwgoslafia llynedd oedd yn gyfrifol am 45% o'r bomiau a'r taflegrau a olyngwyd gan NATO. Mae'r UD yn cydnabod y dewiswyd Fairford fel cartref i'r awyrennau bomio Stealth am ei fod 'yn agos i dargedau tebygol yn y Balcanau a'r Dwyrain Canol'. Mae'r cam yn un pryfoclyd a gwarthus.

heddwethredn! Y sgrifennwch at Tony Blair i brotestio, da chi, yn 10 Downing Street Llundain SW1A 2AA. Bydd gweithredu uniongyrchol yn digwydd yn Fairford; os ydych am gymryd rhan, cysylltwch ag CND Cymru.

Mwy o arwyddion fod yr UD yn paratoi at ryfel

Mae Senedd yr UD wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer y flwyddyn drethiannol 2001 a fyddai'n awdurdodi ymchwil i 'mini-niwc' a allai durio hyd at 1,000 troedfedd dan ddaear cyn ffrwydro. Byddai datblygiad o'r fath yn torri amodau'r Cytundeb Atal Profion Cynhwysfawr a'r Cytundeb Gwrth-Ledaenu. Defnyddid yr arfau hyn mewn gwrthdaro arfog 'confensiynol' yn

erbyn gelynyion heb arfau niwclear.

Myneodd y Los Angeles Times ei bryder fod hwn yn gam mawr tuag at roi gorau i 'unrhyw esgus fod lluoedd niwclear yr UD yn bod i atal rhyfel' yn unig.

Meddai Martin Butcher o Feddygon o blaid Cyfrifoldeb Cymdeithasol a Theresa Hitchens: 'Sut all y byd gredu addewid Washington, a wnaed yn ystod Cynhadledd Adolygu Cytundeb Gwrth-Ledaenu mis Mai 2000 i "ymroi yn ddiamwys" i weithio tuag at ddileu arfau niwclear, pan fo swyddogion yr UD, ar yr un pryd, yn pwysu am fomiau newydd, haws eu defnyddio? At hynny, mae'r Unol Daleithau wedi arwyddo'r hyn a elwir yn ymrwymadau diogelwch negyddol - yr addo i beidio ag ymosod ag arfau niwclear ar wledydd heb arfau niwclear. Onid yw datblygu "mini-niwc" yn gwneud nonsens o'r addewidion hynny? A yw llywodraeth yr UD yn barod i danseilio'r consensws rhyngwladol mai rhyfel niwclear fyddai'r drychineb eithaf ddim ond er mwyn cael cyfle i ollwng bom ar Saddam Hussein? A yw'r fath bolisi yn strategol synhwyrol o safbwynt 21ain canrif heddychlon?'

Maen melin ethegol


Mae'r Blaid Lafur wedi penderfynu peidio â chyfeirio at bolisi tramor ethegol yn ei manifesto ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf gan ei fod wedi mynd yn 'faen melin' am wddf y llywodraeth. 'Mae'n peri emabaras gan na fedrem ei wireddu' meddai un ffynhonnell. Bathwyd yr ymadrodd ddyddiau wedi i'r blaid Lafur ddod i rym ym 1997, pan gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Tramor, Robin Cook y byddai'r llywodraeth 'yn gwneud Prydain yn rym er daioni unwaith eto yn y byd'. Llafur yn aberthu egwyddor arall.

Target

Y ddadl am wraniwm hesb

Mae'r anghytuno am beryglon wraniwm hesb (WH) yn parhau. Tra bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn credu ei bod hi'n dra annhebyg fod unrhyw gysylltiad rhwng defnyddio WH a 'Syndrom Rhyfel y Gwlff', mae tystiolaeth newydd a gynhyrchwyd ym mis Medi yn datgelu mai'r gwrthwyneb sy'n wir. Mae Dr. Asaf Durakovic, athro meddygaeth niwclear ym Mhrifysgol Georgetown yn Washington, wedi cyflwyno tystiolaeth, a wireddwyd gan bedwar arbenigwr annibynnol, mai unedau a fyddai wedi anadlu gronynnau WH sydd wedi dioddef fwyaf o'r syndrom hwn. Mae hyn yn cynnwys peirianwyr, a symudodd danciau a gawsai eu taro gan WH, cynorthwywyr meddygol fu'n torri dillad oddi am gleifion Iraci, a mecanwyr. Dywedodd Dr

Durakovic: 'Dwi'n amau a fydd y Pentagon neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn mor haerllug â herio'r canlyniadau hyn. Alla'i ddim dweud mai dyma unig achos Syndrom Rhyfel y Gwlff, ond mae gennym dystiolaeth glir bellach ei fod yn ffactor bwysig ... gobeithio y bydd llywodraethau'r UD a'r DU yn sylweddoli o'r diwedd, eu bod, drwy barhau i ddefnyddio'r cadoffer yma, eu bod i bob diben yn gwentwyno



eu milwyr eu hunain yn ogystal â dinasyddion cyffredin.'

Taniwyd mwy na 700,000 o ffrwydron WH yn ystod 'Rhyfel y Gwlff'. Maent yn cael eu profi ar feysydd tanio yn Galloway a cheir un o'r cyfraddau cancr plentyndod uchaf yn yr Alban yn yr ardal o gwmpas meysydd tanio'r Weinyddiaeth yn Dundrennan. Meddai'r Galloway Gazette:

'Yn anffodus, ac er ein bod yn llawn cydymdeimlad â'r cyn-filwyr sy'n dioddef o'r syndrom, dyw'r perygl ddim yn dod i ben ar faes y gad. Mae llywodraeth sydd wedi bomio'i chefn gwlad ei hun â'r cadoffer marwol yma yn entw profion wedi gosod dinasyddion cyffredin mewn perygl hefyd.'

Mae Cynhadledd Ryngwladol yr Ymgyrch yn erbyn Wraniwm Hesb (CADU) a gynhelir ar y 4ydd-5ed Tachwedd 2000 ym Manceinion, yn addo bod yn gyfarfod llawn gwybodaeth, defnyddiol dros ben. Mae'r cyfranwyr a gadarnhawyd eisoes yn cynnwys: Ray Bristow (Cyn-filwr Rhyfel y Gwlff), Dr Doug Rokke (arbenigwr ymbelydredd Byddin yr UD), Dr Huda Ammash (genetegydd, Prifysgol Baghdad), cynrychiolydd o Sefydliad Niwclear Vinca yn Serbia, Dr. Rosalie Bertell (epidemiologydd adnabyddus), a chynrychiolydd Vieques Libre!, Puerto Rico, Dr. Chris Busby, Jack Cohen Joppa (ATAL WH), a'r Athro Malcolm Hooper (Prif Gynghorydd Gwyddonol i Gyn-filwyr Rhyfel y Gwlff). Mwy o wybodaeth gan Cat Euler, CADU, One World Centre, 6 Mount Street, Manceinion M2 5NS, Tel: 0161 834 8176 Ffacs: 0161 834 8187, e-bost: gmdcnd@gn.apc.org

Llongau tanfor niwclear - gwastraff bywyd i ddim pwrpas

Adweithydd niwclear oedd yn gyrru'r llong danfor niwclear Rwsiaidd a ddrylliwyd, y Kursk, ac roedd hefyd yn cario arfau niwclear. Dwedodd y dirprwy Brif Weinidog, Ilya Klebanov, y gellid bwrw ati â chynllun i godi'r adweithydd niwclear, os nad y llong danfor gyfan, o fewn blwyddyn. Mae'r adweithydd wedi ei gau lawr ar hyn o bryd. Mae llygredd ymbelydrol yn anorfor.

Y Kursk yw'r bumed long danfor niwclear Rwsiaidd sydd wedi suddo. Mae'r UD wedi colli dwy long danfor niwclear. Ar 10 Ebrill 1963 suddodd y Thresher yng ngogledd Môr Iwerydd, a chollwyd pob un o'r 129 o griw ar ei bwrdd, ac ar y 21 Mai 1968 suddodd y llong danfor niwclear Americanaidd, y Scorpion, ger ynysoedd Açores, gan ladd y criw o 99.

Buddugoliaeth o'r diwedd i Aleksandr Nikitin

Gwrthododd Presidiwm y Goruchaf Lys yn Rwsia ymgais i newid y ddedfryd ddieuog ar yr ymgyrchydd amgylcheddol a'r datgelydd Aleksandr Nikitin ar gyhuddiadau o frâd ac ysbïo. Mae'r penderfyniad hwn, a roddwyd ar Fedi'r 13eg, yn derfynol.

Dyma'r tro cyntaf yn hanes Heddlu Dirgel Rwsia, olynwyr y KGB, y cafwyd person a gyhuddwyd o deyrnfradwraeth yn gwbl ddi-euog. Dyna derfyn ar achos Nikitin.

Peiriannydd niwclear yw Nikitin a chyn-gapten llong danfor, a helpodd i sgrifennu The Russian Northern Fleet: Sources of Radioactive Contamination, adroddiad a

gynhyrchwyd ym 1995 gan y grwp amgylcheddol Norwyaidd, Sefydliad Bellona. Rhybuddiai'r adroddiad fod llongau tanfor niwclear hynafol Rwsia yn cynnwys tanwydd niwclear hesb a allai ollwng neu ffrwydro.

Ar y 6ed o Chwefror 1996, restiodd yr heddlu cudd Nikitin, a bu rhaid i hwnnw dreulio 10 mis yng ngharchar yr heddlu cudd yn St. Petersburg. Roedd y dyfarniad yn ollyngdod anferth i Nikitin a ddwedodd: 'Yn awr, gallaf ganolbwyntio ar waith amgylcheddol. Mae'r pum mlynedd o ddioddef ar ben o'r diwedd.' Meddai Frederic Hauge, llywydd Sefydliad Amgylcheddol Bellona: 'Mae'r fuddugoliaeth yn derfynol. Dylai'r gwaith glanhau yn y Llynges Rwsiaidd Ogleddol, a lesteiriwyd yn ddifrifol gan y broses hon, fynd rhagddo nawr yn llawer cyflymach; mae'r gorchwyl hwnnw'n ymddangos yn rhwydd bron i'w gymharu ag ymladd ag olynwydd y KGB. Dwi'n credu y down ni i ben.'

Diolch i Bellona

Sellafield: llywodraeth sy'n ddall i'r ffeithiau?

Bu Tony Blair yn ceisio denu mwy o fusnes ailbroesu i weithfeydd ailbroesu Sellafield pan ymwelodd â'r cyfarfod G8 meeting yn Siapan, er bod llawer o wledydd Ewropeaidd wedi condemnio BNFL a mynnu fod ailbroesu niwclear yn Sellafield yn cael ei ddwyn i ben. Mae cefnogaeth y llywodraeth i British Nuclear Fuels Limited (BNFL) yn parhau yn ddiaball er gwaetha'r ffaith for Pwyllgor Dethol yr Adran Fasnach a Diwydiant wedi eu beirniadu'n hallt am eu hanallu i ddeall cyllid BNFL. Mae Fforwm Bolisi'r Blaid Lafur hithau wedi cynhyrchu glasbrint ar gyfer manifffesto nesa'r blaid yn galw am roi terfyn ar ailbroesu ac i BNFL symud i mewn i reolaeth gwastraff.

Yn y cyfamser, mae problemau datgymalu Adweithydd Windscale 1 yn Sellafield, a niweidiwyd gan dân ym 1957, yn cynyddu. Mae peirianwyr BNFL yn amau y gallai peth o'r tanwydd yn yr adweithydd gynnuau ymhresenoldeb ocsigen, gan fygwth tanchwa arall. Dywedodd erthygl yn yr Irish Times ym mis Awst fod y posibilrwydd fod BNFL yn mynd i chwarae rhan mewn gwella diogelwch niwclear yn Rwsia 'yn ddigon i godi gwallt eich pen'.

Pobl Diego Garcia: gwerin bobl neu werin gwyddbwyll mewn gêm niwclear?

Ym mis Gorffennaf, daeth grwp o ynyswyr llois o gyn-drefedigaeth Brydeinig Diego Garcia, yng Nghefnfor India, i'r Uchel Lys ym Mhrydain i ofyn am gael dychwelyd i'w hynys. Yn y 'fargen fryntaf yn y chwedegau' rhwng llywodraeth Harold Wilson ac Unol Daleithau America, trowyd ynyswyr Diego Garcia allan o'u cartrefi a'u halltudiod i Mauritius heb geiniog o iawndal, ac maen nhw wedi byw mewn tloidi ers hynny. 'Rhoddwyd' Diego Garcia wedyn i'r UD fel canolfan llynges ac arfau niwclear. Rhan o'r fargen ar y pryd oedd 'gostyngiad' o £11 miliwn ar arfau niwclear Polaris a wnaed yn yr UD. In 1975, pan ddatgelwyd y fargen front, mynegodd y Robin Cook ifanc ei atgasedd, ac ym 1984, daeth Papur Gwybodaeth gan y Blaid Lafur ar y pwnc i'r casgliad: 'Fel cam cyntaf, dylid gorfodi UDA i symud pob arf niwclear oddi yno. Y nod ddylai fod cau Diego Garcia fel canolfan

i'r llynges. Yn 2000, Swyddfa Dramor Robin Cook sy'n gwrthwynebu'r achos a ddygwyd gan yr ynyswyr. Cook yn 'newid cyfeiriad' unwaith eto.

Cyhoeddodd Pennaeth Staff Awyrlu'r UD yn yr haf eu bod bellach yn ystyried cadw rhai o'u hawyrennau bomio niwclear 'Stealth' marwol ar yr ynys.

heddwethredn! Mae'n bryd i ni fynegi ein gofid a'n dicter am driniaeth pobl Ilois Diego Garcia gan ein llywodraeth ni. Sgrifennwch at Robin

Cook, Foreign & Commonwealth Office, Llundain SW1A 2AH, da chi, yn gofyn beth yw ei safbwynt presennol ar y mater (danfonwch gopi o'i ateb at CND Cymru). Mae ar yr ymgyrchwyr Ilois angen cefnogaeth ariannol.

Cysyllter â Sylvia Boyes: (0161) 789 2128.

Dulliau niwclear - arfau confensiynol

Mae'r Athro Thomas J. Nagy o Brifysgol George Washington wedi cael gafael ar ddogfen fanwl a gwarthus a baratowyd gan Wasanaeth Cyfrin yr UD o'r enw 'Gwendidau Triniaeth Irac' a gyhoeddwyd y diwrnod wedi dechrau bomio Irac ym 1990. Mae'r ddogfen hon yn profi fod y 'cynghreiriaid' wedi bwriadu ymosod ar bobl gyffredin Irac drwy ddinistrio eu system ddwr. Mae dogfen y Pentagon yn dod i'r casgliad, gan fod gan Irac system buro dwr soffistigedig ar gyfer ei phoblogaeth, y byddai dinistrio'r system yn nod ddefnyddiol i awyrennau bomio'r UD a Phrydain gan y byddai hynny arwain at 'brinder dwr yfed croyw ar gyfer llawer o'r boblogaeth. Gallai hyn arwain at fwy o afiechyd, os nad pla.' Yn ystod cyrchoedd bomio, trawyd argaeau yn fwriadol, gan ddinistrio cyflenwadau dwr a thrydan dwr a dulliau rheoli llifogydd. Dwedodd yr Athro Nagy wrth y Glasgow Sunday Herald (17th Medi 2000):

'Ymddengys fod y rheini na welai ddim o'i le (mewn cynhyrchu'r cynllun), y rheini a orchynnodd ei gynhyrchu, a'r rheini a wyddai amdano ac sydd wedi cadw'n fud ers 10 mlynedd wedi torri Deddfwriaeth Ffederal ac wedi, efallai, hyd yn oed gynllwyno i gyflawni hil-laddiad.' Gwaharddwyd clorin a darnau hanfodol o offer sydd eu hangen i drwsio a glanhau'r system ddwr o dan gyfundrefn 'dda' y CU. Mae afiechydon dolur-rhydd yn bla ledled Irac a hwy sy'n bennaf gyfrifol am farwolaethau plant dan bump.

Bydd project Argae Illusu anferth Twrci (y disgwylir y bydd y llywodraeth Brydeinig yn cyfrannu rhwy £200 miliwn iddo mewn gwarantau credyd allforio) yn gwaethygu problem diffyg dwr glân. Bydd y project hwn yn rhoi rheolaeth lwyr i Dwrci dros lif dwr i Irac a Syria. Mae'r contractwyr, Balfour Beatty, wedi dweud y bydd gostyngiad o 40% yn llif y dwr i Irac yn ystod cyfnod 3-blynedd adeiladu'r argae. Mae Irac wedi bod yn dioddef sychdwr hefyd. Mae afon Tigris ar ei hisaf o fewn cof.

Cefnogwch Ymgyrch Argae Illusu drwy gysylltu â: Box 210, 266, Banbury Road, Rhydychen OX2 7DL e-bost: ilusu@gn.apc.org

Arwinydd Cenedlaetholwyr yr Alban yn dweud 'Trident mas'

Cyhoeddodd arweinydd newydd ei ethol Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP), John Swinney, yn ei araith agoriadol yng nghynhadledd yr SNP ym mis Medi fod

heddwch 6

diarfogi niwclear yn achos sy'n agos iawn at galonnau'r SNP a'i bod wedi ymrwymo i gael gwared ag arfau niwclear o dir yr Alban. Mae Roseanna Cunningham, y dirprwy-arweinydd newydd, eisoes wedi arwyddo deiseb gefnogaeth Trident Ploughshares.

Meddai Jane Tallents, Is-gadeirydd CND yr Alban:

Dwi'n siwr nad yw'r rhan fwyaf o aelodau'r SNP am weld arfau niwclear unrhyw le, ond gan fod eu dadl o blaid annibyniaeth yn dibynnu ar hawl yr Alban i benderfynu pethau ei hun, fassen nhw ddim yn teimlo mai eu lle nhw yw dweud wrth Loegr y dylai fod yn wlad ddi-niwclear!



Gweledigaeth ar gyfer Trecwn

Creodd cynlluniau gan gwmni 'Omega-Pacific' i storio gwastraff niwclear ar gyn-safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sir Benfro don ddiglyffelyb o brotestio ar draws y sir. Mae'n ymddangos yn awr fod cynlluniau Omega ar stop, er nad yw'r posibilrwydd o storio gwastraff niwclear wedi ei ddileu hyd yn hyn. Mae Cynghrair Wrth-Niwclear Sir Benfro (CWNP) wedi dal i bwyso a chadw gwyliadwraeth, ond mae'r sefyllfa'n dal yn ansicr.

Yn y cyfamser, mae mudiad optimistaidd newydd 'y bobl', y Grwp Cysyniadau Arloesol (GCA) yn datblygu cynllun i'r gymuned brynu'r safle os a phan benderfynu Omega Pacific roi'r gorau i'w syniad o storio gwastraff niwclear.

Y syniad yw i'r gymuned leol fynd yn berchen y safle. 'Mae 200,000 o bobl yn berchen cyfranddaliadau £1 yn bwerus iawn' meddai (Cyn-Gadeirydd y Parc Cenedlaethol) Robin Pratt, yn cynrychioli'r GCA mewn ymgyngori cyhoeddus diweddar. Mae e'n credu mewn rheolaeth agored a gweledigaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol, ac mae'n gobeithio, yn y lle cyntaf, y gellir ddethol yn ofalus fusnesau cynaliadwy a chodi rhenti bychain er mwyn iddyn nhw allu ennill eu plwyf. Mae prosesu bwyd organig yn un enghraifft a roddwyd o'r math o fusnesau hoffai'r GCA eu denu. Mae'r rheilffordd o Abergwaun i Drecwn yn rhan hanfodol o'r cynllun er mwyn osgoi cynyddu trafniadaeth ar y ffyrdd mewn dyffryn hardd, llawn bywyd gwyllt. Hoffai'r GCA weld cynlluniau i ddefnyddio Trecwn i ddibenion cymunedol, adloniadol a diwylliannol hefyd.

Yn gyntaf, rhaid i ni atal unrhyw gynlluniau i storio gwastraff niwclear ar y safle sy'n cynnwys 500 erw o goed, coed deri yn bennaf, ar lethrau serth y dyffryn. Mae yno 58 o dwnneli, rhai ohonynt yn ogofeydd hyd at 6000 troedfedd sgwâr o faint, ac 80 adeilad arall. Rhoddwyd y safle ar y farchnad yn wreiddiol am £8 miliwn gan y Weinyddiaeth. Ar ôl gwrthod cynnig o £5 miliwn, dyma ei werthu yn y pen draw am ddim ond £380,000 ac addewid gwag o 500 o swyddi yn ailwampio a thawelu injans jet.

Ddiddordeb? Cysyllter â'r GCA ar 01348 875006 neu am newyddion am yr ymgyrch barhaol i gadw Sir Benfro yn ddi-niwclear, cysyllter â CWNP ar 01348 87 3483.

Fersiwn wedi ei golygu yw'r erthygl hon o un a ymddangosodd gyntaf yn 'Vision in Action', cyfrol 3, rhif 1 (£10 y fl.), ar gael gan Vision in Action, Ffermyd Fachongle, Trefdraeth, Sir Benfro SA42 0QR (01239) 820 971. e-bost: vickymoller@ukonline.co.uk

Gwarchae Faslane 1af Awst 2000

8 o brotestwyr a thrybedd yn dwyn gwarchae ar y Glwyd y De
+ 120 o brotestwyr yn canu a rhwystro Clwyd y Gogledd = llawenydd a gorfoledd!

Disgyn o'r tren yn Glasgow Central ac edrych ar yr awyr gymylog. Cofio sut oedd hi yn Faslane fis Chwefror diwethaf: treisio bwrw, pawb a phopeth yn rhewi. Roeddwn wedi gobeithio am hindda y tro yma. Yn Nhy Cwrdd y Crynwyr, Elm St Crescent, cawsom ein cyfarwyddiadau a gwneud yr ymarferion arferol, oedd yn ffordd dda o ddod i nabod pawb y byddwn yn gweithredu gyda nhw drannoeth. Roedd rhaid i bawb gydnabod eu hofnau ynglyn â'r gwarchae. Dwedais wrth y grwp mae fy ngwir ofn oedd nid y gwarchae ond lledaeniad cynyddol arfau niwclear. Roedd ras arfau newydd ar gychwyn oherwydd fod UDA yn benderfynol o adeiladu'r system Star Wars fondigrybwyll i' amddiffyn yr UD. Rydym fel pe baen yn mynd ar ein pennau i Armagedon. Dwedais wrthyn nhw mod i am i'r plant, Tad, 6a Carwyn, 5 gael dyfodol mewn byd heb arfau niwclear. Dim ond drwy i ni ymgyrchu'n egniol y gallwn wneud i hynny ddigwydd. Gwn y gallwn ennill yr heddwch; dyw methiant ddim yn ddewis. Daeth y sesiwn i ben am 10.30 p.m. gyda phawb yn gwybod beth a ddisgwyliid ganddyn nhw drannoeth.



Wedi ychydig o oriau aflonydd a galwad gynnar am 4:30 a.m., cawsom dost a phaned o de. Yna, i ffwrdd â ni ar fws Ploughshares i'r gwerysll, a'r glaw'n pistyllu i law. Ymunais â rhan olaf y daith heddwch o wersyll Ploughshares Coulport i'r gwarchae. Roedd grwp o Fwdistiaid Siapaneaidd yn arwain y fintai, yn curo'u drymiau, chwifio'u baneri a chanu eu siantiau atgofus. Wrth i ni nesáu at rengoedd yr heddlu gallech weld wrth eu hwynebau na wyddai'r heddlu sut i ymdopi â'r canu. Row'n i'n meddwl ein bod yn mynd i gerdded yn syth i mewn i'r gwerysll, ond daeth yr heddlu at eu coed ac atal y ffordd. Rhybuddiodd uwch swyddog y protestwyr eu bod yn torri'r gyfraith, gan ddweud y caem ein restio pe na baem yn symud. Ymdoddodd s^wn uchelseinydd yr heddlu â churiad araf drymiau'r Bwdistiaid. Creodd eu siantio parhaus, ynghyd â seiniau'r gân "gonna lay down my sword and shield" awyryglch trydannol. Eisteddais ar lawr a ffurfio cadwyn gyda deg arall mewn cymysgedd anferth o freichiau a choesau yn ymddolennu am ei gilydd. Roedd protestwyr wedi gwthio eu breichiau drwy diwbiau cardbord caled, cris-croesi ei gilydd, ac yna eu clymu â 'sellotape' cryf, cadwynodd eraill eu hunain wrth gerbydau. Wrth i bedwar heddgedwad geisio fy rhynnu oddi yno, gafaolodd protestwyr eraill yn fy nghoesau. Roedd llawer iawn o heddlu yno ac ar ôl ymaflyd codwm am 10 munud, tynnodd chwe swyddog cydnerth fi o'r grwp a 'nghario'n gorfforol am ganllath i'r lle roedd cerbydau'r heddlu yn aros. "Enw, oed, dyddiad geni, cyfeiriad" cyfarthodd y swyddog restio. Piniodd heddwes arall rif côd restio ar fy mrest tra tynnodd un arall fy llun â chamera Polaroid mawr. Bu'n rhaid i'r protestwyr a restiwyd ddisgwyl am amser maith. Roedd yn oer ac yn wlyb ond roedden ni i gyd mewn hwyliu da oherwydd gwyddem fod ein protest wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Cawsom clywed fod Clwyd y De wedi ei chau'n llwyr diolch i bobl ifanc ddewr ddyfeisgar oedd wedi codi trybedd 20-troedfedd â pholion scaffaldwaith. Eisteddodd dau ar ben y trybedd mewn cadeiriau bosn plastig.

Am wallgofrwydd i osod arfau niwclear anghyfreithlon mewn lle mor hardd! Cymerodd hanner awr i'r bws gyrraedd gorsaf heddlu Maryhill, Glasgow. Fel arfer, roedd yr heddlu yn y fan yn dod o wahanol ardaloedd ac wedi colli eu ffordd, ond dangosodd un o'r protestwyr lleol y ffordd i'r orsaf iddyn nhw. Cawsom ein prosesu'n gyflym iawn a'n gosod mewn celloedd ar ein pen ein hunain am 12 awr. Yr unig ddiwyfwrch oedd trip i'r stafelloedd olion bysedd a ffotograffiaeth. Yn ddiweddarach, cefais bryd bychan o facaroni a phaned o de cryf, trwchus heb laeth na siwgr. I'm diddanu fy hun, canais ganeuon heddwch a rhyddid Côr Cochion. Meddyliais hefyd am y llu o garcharorion gwleidyddol sy'n pydru mewn carchar, fis ar ôl mis, lawer ohonyn nhw'n ddieuog. Ar ôl 12 awr, allan â ni i'r stafell aros gyhoeddus. Bonllef uchel oddi wrth ein cefnogwyr ond cyn i ni allu cael ein gwynt yn ôl, dyma naw protestiwr y trybedd yn cyrraedd - roeddwn nhw wedi cadw'r gwarchae ar Glwyd y De tan 7p.m. cyn cael eu restio. Gallasom roi croeso cynnes, heddgarol iddyn nhw cyn iddyn nhw gael eu llusgo ymaith i gymryd ein lle yn y celloedd gwag. Clywsom fod mwy nag 80 o bobl wedi cael eu restio i gyd.

Wedi i mi ffonio Wendy, cawsom de a thost yn Nhy Cwrdd y Crynwyr, ac yna, gwely, ar ôl darllen y papurau hwyrol a chlywed fod y gwarchae wedi cael llawer o sylw yn y wasg. Wrth i mi suddo i mewn i'm sach gysgu, teimlwn yn gynnes braf - gwarchae llwyddiannus iawn arall yn erbyn arfau niwclear. Cam eofn arall tuag at fyd diogel di-niwclear. Er mwyn fy mhlant; er mwyn ein holl blant, a gyda chymaint o bobl ifanc ac ymgyrchwyr o bedwar ban, rydym yn sicr o ennill. Ymlaen i Aldermaston ym mis Tachwedd a nôl i Faslane ym mis Chwefror.

Ray Davies

I gael gwybod mwy neu ymuno â Trident Ploughshares cysyllter â Ray Davies, Is-gadeirydd CND Cymru a chynogydd lleol yng Nghaerffili (029) 2088 9514 neu Trident Ploughshares (0141) 423 1222. Efallai y bydd modd rhanu cludiant.

Breuddwyd Iwgoslafiaid ifainc: does dim angen ffiniau ar y byd

Treuliais ddwy wythnos olaf mis Awst yn Iwgoslafia yn aros gyda phâr sy'n byw yn Novi Sad, prif ganolfan drefol Vojvodina. Tra'r oeddwn gyda nhw, cafais gyfle i deithio i rannau eraill o'r wlad hefyd, yn enwedig Kraljevo yn ne Serbia a Novi Pazar, prif dref rhanbarth Sandzak, sy'n agos iawn at y ffin â Kosovo. Ymwelsom â Beograd hefyd.

Yn y Steddfod Genedlaethol yn Llanelli ym mis Awst, cynhaliwyd cyfarfod ar y Balcanau yn y Babel Heddwch. O ganlyniad i hwnnw, gallais ddwyn gyda mi i Iwgoslafia neges o ewyllys da gan heddgarywyr yng Nghymru. Dyfyniad gan Gandhi oedd y neges: "Rwy'n gwrthwynebu trais oherwydd mai dim ond peth drosdro yw'r daioni yr ymddengys ei fod yn ei wneud, ond mae'r drygioni mae'n ei wneud yn barhaol." Roedd y bobl y cefais y fraint o gyfarfod â nhw yn Iwgoslafia yn ymateb yn gynnes i'r neges hon oherwydd dyna maen nhw'n ei wir gredu eu hunain. Ymddangosodd y neges, gydag esboniad byr am y rhai a'i harwyddodd, yng nghyfyngau annibynnol Vojvodina. Roedden nhw am i'w darllenwyr gael gwybod fod ganddyn nhw gyfeillion yng Nghymru, a bod y cyfeillion hynny yn coledu'r un syniadau a'r un ymrwymiad i heddwch â hwythau.

y sancsiynau

Mae'r sancsiynau a orfodwyd ar Iwgoslafia yn y lle cyntaf ym 1993 yn anghyfiawn am eu bod yn peri gwaeth dioddefaint i ddinasyddion cyffredin heb gyffwrdd â'r rheini sy'n gyfrifol am droseddau rhyfel ac erchyllterau eraill. Mae pawb yn cytuno mai'r gaeaf cyntaf oedd y caletaf gan iddi gymryd amser i'r hyn maen'n nhw'n ei alw'n "economi lwyd" i ymffurfio.

Un o effeithiau amlwg y sancsiynau yw'r torfeydd o bobl yn aros mewn cwt am nwyddau sylfaenol. Mae pobl yn poeni hefyd am wres yn y gaeaf. Y gaeaf diwethaf, daeth digon o gyflenwad drwodd o Rwsio, ond mae hynny'n amheus eleni. Y gaeaf diwethaf, arbedodd llawer o bobl arian ar wresogi drwy symud eu gwelyau i mewn i'r stafell fyw a byw mewn un stafell yn unig. Er gwaethaf hynny, cododd y gyfradd farwolaeth, yn enwedig ymhlith yr henoed. Does dim gwaith yn cael ei wneud ar y ffyrdd ac mae teithiau pell mewn bys yn gymhleth ac yn anfyfych. Ystyrir y syniad o gyrraedd unrhywle ar y tren fel tipyn o jôc. Buom yn gyrru wrth ochr rheilffyrdd ar lawer o'r daith, a welais i'r un tren yn unman!

Mae'r effeithiau ar iechyd yn llai amlwg ar yr olwg gyntaf. Mae'r embargo yn effeithio ar fwyd, offer meddygol a moddion, dillad, papur a llyfrau. Mae pobl yn dioddef o ddiffyg maeth gan na all teuluoedd tlawd fforddio fawr ddim ond bara. Dim ond ar bresgripsiwn y gellir cael moddion, a does dim sicrwydd wedyn y bydd ar gael gan unrhyw fferylllydd. Mae triniaeth feddygol ar gael o hyd, ar bapur, drwy wasanaeth iechyd gwladol y mae pobl yn dal i dalu cyfraniadau yswiriant gwladol iddo. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae wedi mynd yn system breifat, gan mai dim ond drwy dalu y gellir symud oddi ar restr aros ddi-ddiwedd, i bob golwg am lawdriniaeth neu unrhyw fath arall o driniaeth mewn ysbyty. Mae dirfawr angen adnewyddu adeiladau ysbyty ac mae prinder offer meddygol sylfaenol.

Wrth i mi restru effeithiau cudd sancsiynau, byddai'n gamarweiniol pe na chyfeiriwn at iselder meddyliol. Y tu ôl i ddewrder pobl yn wyneb adfyd, mae olion pwysau, pryder ac iselder difrifol.

ymgyrch fomio NATO

Un o'r ffactorau o'm plaid oedd fy mod wedi gwrthwynebu ymgyrch fomio NATO, waeth mor aneffeithiol y bu'r brotest honno. Chwrddais i â'r un person yn Iwgoslafia, lle'r oedd y rhan fwyaf yn feirniadol dros ben o'u llywodraeth eu hunain, a gredai fod y bomio gan NATO wedi gwneud lles o gwbl. Yn wir, byddent oll yn mynd yn llawer pellach a dweud iddo wneud llawer o niwed. Roedd cael eu bomio wedi bod yn brofiad brawychys. Roedd Novi Sad, oherwydd ei phurfa olew fawr, yn un o'r targedau a ddetholwyd i'w bomio bron bob nos. Cafodd ardaloedd preswyl o'r ddinas eu taro gan daflegrau yn ystod y dydd hefyd. Chwalwyd y heddwch 8

gollyngdod roedd pobl wedi ei deimlo o glywed fod 'cytundeb heddwch' wedi ei wneud ar Fehefin 7fed y llynedd yn fuan yn ystod noson Mehefin 9fed pan ollngwyd rhagor o fomiau ar y burfa olew. Roedd y disgrifiad a gefais i yn awgrymu 'carped-fomio'. Pan glywais am yr un profiad yn Pancevo llynedd, y farn oedd fod NATO am wagio gweddill ei arfogaeth ac wedi penderfynu gollwng y cwbl ar Pancevo! Rhaid fod Novi Sad wedi dioddef yn yr un modd. Gollyngwyd bomiau clwster hefyd, a arweiniodd at farwolaethau a llawer o anafiadau.

Dwi'n credu bod teimlad pe baem, ni yn y Gorllewin yn gwybod go iawn am y modd y brawychir y Serbiaid a'r bobl Roma, y byddem yn herio ein llywodraeth ynglyn â'i pholisïau ac y byddai rhywbeth yn newid oherwydd fod Prydain yn ddemocratiaeth! Mae'n amlwg i bobl yn Iwgoslafia mai'r cwbl mai ymyrraeth NATO wedi ei wneud yw gwrthdroi'r broses o 'lanhau ethnig' drwy gyfreithloni dyheadau eithafol o fewn y gymuned Albaniaidd. Mae pawb yn credu fod y bomio, a felly hefyd y sancsiynau, ymhell o fod wedi gwanhau'r oruchwyliaeth bresennol ond, yn hytrach, wedi ei hatgyfnerthu. Mae'r progaganda yn annog Serbiaid i ymfalchïo yn y ffaith iddyn nhw wrthsefyll y Gorllewin ac ennill! Bwriad darllediadau plaid ar gyfer etholiadau mis Medi oedd darbwyllo'r bobl mai ymgeisyddion yr wrthblaid, fel cynffonwyr y Gorllewin, oedd yn uniongyrchol gyfrifol am y bomio.

Y llynedd roedd pobl yn poeni'n fawr iawn fod y priddwedi ei lygru o ganlyniad i'r bomio. Mae adroddiad y CU ar effeithiau amgylcheddol y bomio yn cynnwys Novi Sad fel un o'r manau gwaethaf, ag angen sylw brys. Hyd y gwyr neb, does dim wedi cael ei wneud.


Mae bom heb ei ffrwydro yn gorwedd ar lan afon Donaw, yn agos iawn i lle mae pobl yn mynd i bysgota. Mae llun ohono yn y papur lleol. Yn ôl y marc arno, MK-84, taflegryn wedi ei reoli â lasar ydyw, a gynhyrchwyd ym 1979. Mae'r wybodaeth ychwanegol yn cynnwys y ffaith y costiodd \$200-300,000 i'w gynhyrchu. Yn Llyn Palic, mae taflegryn 'Tomahawk' wedi ei gladdu'n ddwfn o dan y dwr. Mae'n debyg fod Kalievo, a arferai fod yn harddfan enwog, yn nodedig am ei awyr lân a'i eco-system fregus, a Pharc cenedlaethol Fruska Gora yn awr yn frith o fomiau clwster. Galwyd fy sylw at y ffaith mai'r rhai sy'n dioddef fwy oherwydd y bomiau clwster yw plant Albaniaidd yn Kosovo, sy'n byw mewn pentrefi bychain ac sy'n aml ar y mynyddoedd yn chwarae neu'n bugeilio defaid. Does dim i'w rhybuddio rhag codi'r pethau oren, ac yna cael eu lladd neu eu niweidio'n ddifrifol yn y ffrwydrad.

imperialaeth UDA

Mae un o wersylloedd Americanaidd mwyaf NATO bellach yn Kosovo (Camp Bondsteel). Yn naturiol, mae llywodraeth Iwgoslafia am gadw presenoldeb milwrol cryf i wrthbwysu'r sefyllfa hon. Mae pobl yn Novi Pazar, sy'n agos iawn at y ffin â Kosovo, yn ymwybodol iawn o'r presenoldeb milwrol o'u cwmpas. Maen nhw'n teimlo fod y fyddin yn fwriadol yn dewis peidio â defnyddio ffordd osgoi a dod â thanciau a cherbydau milwrol eraill drwy strydoedd cul yr hen dref i frawychu pobl.

gweledigaeth aml-ddiwylliannol

Fe gwrddais â phobl ifanc yn Novi Pazar sydd â gweledigaeth. Mae'r bobl ifanc yma, sy'n byw yn agos at y ffin â Kosovo, wedi mynd hyd yn oed y tu hwnt i'r traddodiadau aml-ddiwylliannol mae gan bobl Iwgoslafia reswm i ymfalchïo ynddyn nhw. Maen nhw'n gweld gwahaniaethau nid fel rhanadau anodd i'w goresgyn, ond peth sydd yn denu a chyfoethogi'r naill a'r llall. Eu breuddwyd nhw yw i bobl gydnabod nad oes angen ffiniau ar y byd.



Rachael Sweeting



**Rachael (trydedd o'r dde)
gyda staff y papur annibynnol
"Vojvodina".
Mae'n dal y neges o'r Babel
Heddwch yn Steddfod
Genedlaethol Llanelli.**

ymgyrchu - y diwedd araf


Galwad o Hiroshima Awst 2000

"Galwn ar bob gwladwriaeth ag arfau niwclear i roi'r gorau i arfau niwclear, dileu'r rhaglenni ATC ac ATT a gwahardd pob math o brofion niwclear, yn cynnwys profion is-gritigol. Gadewch i ni fwrw ymlaen ag ymgyrchoedd i ehangu a chreu ardaloedd di-arfau niwclear; ymgyrchu i ddileu arfau niwclear wedi eu lleoli ar dir/moroedd a chefnforoedd gwledydd tramor; ymgyrchu i orfodi llongau tramor ac awyrennau milwrol i gyflwyno tystysgrif i ddweud nad ydyn nhw'n cario arfau niwclear; ac ymgyrchu i wneud gwledydd, ardaloedd dinesig, porthladdoedd a meysydd awyr yn ddi-niwclear. Drwy gyfuno'r mudiadau hyn gyda'r duedd sy'n galw am ddileu arfau niwclear, gadewch i ni amgylchynu ac ynysu'r lluoedd o blaid arfau niwclear.

"Apeliwn at bobl y byd. Gallwn newid y byd. Rydym yn credu hyn yn pendant, ac mae'n cred yn cryfhau bob dydd. Gadewch i ni ddwyn ynghyd ein holl ymdrechion a'n gweithredoedd i adeiladu momentwm pendant tuag at greu 21ain ganrif ddi-niwclear cyn gynted ag y bo modd."

Datganiad Cynhadledd 2000 y Byd yn erbyn Bomiau A- ac H-, Hiroshima a Nagasaki.

ffotograff: Wendy Lewis



Tad a Carwyn ym Mharc y Rhath, Dydd Nagasaki 2000

Cofio Hiroshima a Nagasaki

Ar Awst 6ed a'r 9fed, cafodd 55 mlwyddiant gollwng bomiau niwclear yn fwriadol ar ddinasoedd Hiroshima a Nagasaki yn Siapan ei goffáu yn ddwys ym mhedwar ban y byd. O ganlyniad i'r ymosodiadau hynny, dinistriwyd Hiroshima a Nagasaki yn llwyr: roedd 200,000 o Siapaniaid wedi marw erbyn diwedd 1945 a cholodd llawer fu byw drwy'r cyfnod cyntaf eu bywydau yn y blynyddoedd wedyn. Hyd yn oed yn awr, mae 300,000 o bobl yn byw mewn poen o ganlyniad i'r bomiau hynny a'r amgylchedd ymbelydrol a grewyd ganddyn nhw.

Yn Nghymru, bu digwyddiadau coffa yn Nhrefdraeth, Llandrindod, Abertawe, Casnewydd ac yn y Steddod Genedlaethol yn Llanelli. Yng Nghasnewydd, cynhaliodd Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid, yng nghwmni'r AS Paul Flynn a'i wraig, seremoni goffa ar lannau Llyn Parc Tredegar gyda darlleniadau a cherddi a thawelwch wrth i flodau gael eu taflu ar y dwr llonydd. Arwyddwyd llythyr at Tony Blair, yn ei annog i

heddwch10

beidio rhoi caniatâd i'r UD i ddefnyddio naill ai Menwith na Fylingdales ar gyfer system "Amddiffyn Taflegrau" arfaethedig yr UD, gan bawb oedd yn bresennol. Yng Nghaerdydd, yng nghanol y gwynt a'r glaw ym Mharc y Rhâth, cynhaliwyd gwynnos â chanhwyllau a gwasgarwyd petalau blodau ar y llyn.

Amcangyfrifon o allu taflegrau o safbwynt ergydion niwclear maen nhw'n eu cludo, 55 mlynedd wedi cyflafan Hiroshima a Nagasaki:

Y cyn-Undeb Sofietaidd: 20,000	UDA: 10,000	
Prydain: 185	Ffrainc: 450	
Israel: 250	Tsina: 450	India: 65
Pakistan: 15 - 25		
Cyfanswm: mwy na 40,000		

CND yn pwyntio bys yn Fylingdales, Aldermaston a Downing Street

Aeth CND â'i brotestiadau i wersylloedd milwrol Menwith Hill a Fylingdales yn swydd Efrog yn haf yma fel rhan o'r ymgyrchoedd "Pwyntio Bys".

Ar 6ed Awst cofiwyd bomio Hiroshima gyda phrotest CND yn erbyn y cynllwyn sy ar y gweill gyda'r UD ar raglen i ehangu arfau niwclear. Arddangoswyd dwylo 'Pwyntio Bys' mawr gyda 'No to Star Wars' wedi ei sgrifennu ar draws yr arddyrnau ar glwydi Downing Street ar ddydd Nagasaki. Cyflwynodd dirprwyaeth dan arweiniad Cadeirydd CND, Dave Knight ac Is-Lywydd CND, Bruce Kent Ddatganiad o Brotest a channoedd o ddeisebau yn galw ar y llywodraeth i anrhydeddu ei hymrwymiad o dan y Cytundeb Atal Lledaenu i fwrw ymlaen â diarfogi niwclear.

Protestiodd y ddirprwyaeth yn yr un modd wrth Lysgenhadaeth yr UD a chyflwyno deisebau.

"Mae'n anfadduol fod y llywodraeth yn dal i wrthod hyd yn oed trafod mater amddiffyn taflegrau'r UD, yn enwedig gan y bydd rhaid i'r UD ofyn caniatâd Prydain i ddefnyddio gwersylloedd ym Mhrydain ar gyfer ei 'Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol'" meddai Dave Knight. "Bydd yn rhy hwyr i gynnal y drafodaeth honno pan ddaw'r cais ffurfiol, a go brin y caiff ei wrthod bryd hynny."

Maer Caernarfon yn arwyddo apêl ryngwladol i ddileu arfau niwclear

Mae Ioan Thomas, Maer Caernarfon, wedi ymuno ag apêl ryngwladol gan feiri yn galw ar Arlywyddion yr UD a Rwsia i ddileu eu harfau niwclear. Mae bron gant o feiri o bedwar ban, o ddinasoedd mor bell oddi wrth ei gilydd â Yerevan (Armenia) a Dinas Mecsico, Cairo a Dulyn, yn cynnwys 35 maer o'r Unol Daleithau a chwech o Brydain, wedi mynegi pryder am beryglon arfau niwclear a'r gwastraff adnoddau anferth.

Maen nhw'n ysgrifennu:

"Mae dau ohonom, meiri Hiroshima a Nagasaki, yn siarad o brofiad. I ni'r gweddill, mae tynged y dinasoedd hynny yn atgof annileadwy o'r peryglon diderfyn rydym oll yn eu



hwynebu ... wrth Arlywyddion America a Rwsia, dwedwn hyn: "Diolchwn i chi am yr hyn rydych wedi ei wneud i gefnogi cytundebau â'r bwriad o atal lledaenu, i wahardd profion ffrwydrol, ac i reoli arfau niwclear a lleihau eu nifer. Gofynnwn yn awr am eich ymrwymiad cadarn i'r gorchwyl o ddileu arfau niwclear oddi ar wyneb y ddaear. Gofynnwn i chi lansio'r broses drwy arwain y byd mewn camau â'r bwriad o gyrraedd y nod honno mor gyflym â phosib. Does dim gwaddol fwy gwerthfawr y gallech ei gadael yn eich oes i bob oes, i'n cenhedlaeth ni a phob cenhedlaeth sydd i ddod."

heddwethred!

Cymru neu Tyler Stevenson, Statement by International Mayors, Global Security Institute, Post Office Box 475160, San Francisco, CA 94147, UDA. e-bost:www.gsinsitute.org Tel/ Ffacs: +1 415 561 6686/6687



Fotograff: Rae Street

Manceinion, Medi 2000


adolygiad

Time for Peace

Janet Ganguli

Small World Publications 1999.

Dyma lyfr wedi ei anelu i blant sy'n ymwneud a



heddwch mewn ffordd real iawn. Mae'n dechrau trwy drafod rhyfeloedd, eu hachos a'u heffaith ac yna yn arwain y plant i feddwl o ddifri am ffyrdd eraill o ddatrys problemau. Ceir engrheifftiau o fywydau enwogion megis Gandhi a Martin Luther King ynghyd a nifer llai adnabyddus o grefyddau a diwylliannau gwahanol i

ddangos sut y gall dulliau di-drais orchfygu systemau a phwerau mawrion. Hefyd, cawn hanesion cymunedau a gwledydd lle mae'r ffordd di-drais wedi gweithio yn wyneb bygythiadau.

Mae'n cyfeirio at wrthwynebwyr cydwybodol a'u safiad yn erbyn rhyfela ac yn son am fudiadau ac ymgyrchoedd fel Greenpeace, Greenham Common ac C.N.D. a'u gwaith.

Mae'r llyfr yn croesi ffiniau amser ac yn gyfoes iawn - yn son am safiadau heddiw er engrhaifft Aung San Suu Kyi ym Myanmar a Mairead Corrigan Maguire yn yr Iwerddon ac yn siwr o daro tant ym meddwl y bobl ifanc fydd yn ei ddarllen. Gellir ei ddefnyddio'n hawdd mewn ysgol a chartref i ddysgu ac i herio'r ffordd o feddwl sy'n ceisio dweud mai rhyfel yw'r unig ffordd. Gobeithio y bydd nifer o blant yn cael cyfle i'w ddarllen ac i weithio ar y syniadau ynddo. Byddai o werth anferthol i'n cymdeithas a'n byd i'w gymryd o ddifri.

Anna Jane Evans

£4.50 gan Small World Publications, 31, Caxton End, Bourn Caer-grawnt, CB3 7SS Lloegr

Achosion Trident Ploughshares

Mae achosion y rheini sydd wedi cymryd rhan mewn gweithredu uniongyrchol di-drais i ddiarfogi system arfau niwclear Trident Prydain yn mynd yn eu blaen. Mae llysoedd wedi synnu, edmygu, a chael eu gwylltio gan onestrwydd a chywirdeb y protestwyr.

Ymhlith y rhain roedd achos Sylvia Boyes am dorri ffens (Awst 99), nofio i mewn i Faslane (Awst 99) a'i rhwymo ei hun wrth fws yn Coulport (Tach 99). Traddododd Sylvia, mamgu a Chrynwraig o Fanceinion, araith nerthol yn cyfiawnhau ei gweithredu. Siaradodd am arswyd cyflafan Dunblane a bom Omagh, a dangos llyfr am Hiroshima i'r llys, gan ofyn iddo beidio ag anwybyddu'r drosedd yn erbyn y ddynoliaeth a gynrychiolir gan Trident. Darllenodd Siarter y CU wrth y llys a dweud wrtho am y modd mae'n llywodraeth yn torri'r gyfraith tra'n mynnu fod pawb arall yn ufuddhau.

Dwedodd yr ynad ei fod wedi gwrandao'n amyneddgar ond nad oedd yno i farnu a oedd Trident yn gyfreithlon. Fe'i cafodd yn euog a rhoddodd ddirwy o £100 iddi, ynghyd â 28 diwrnod i dalu gan wybod beth fyddai'n ei ddweud.

Cyfyng-gyngor difrifol i'r rheithgor yn achos Dryllio Trident

Cafodd rheithgor ym Manceinion Rachel Wenham a Rosie James yn ddiueog ar ddau gyhuddiad o beri niwed troseddol i'r llong danfor Trident Vengeance drwy chwistrellu "Death machine" ac "Illegal" ar y llong, ac ni allent gytuno ar ddedfryd ar y cyhuddiad cyntaf o forthwylio offer profi.

ACau yn cefnogi gwarchae Faslane

Cefnogodd nifer o aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol Warchae Faslane ar Awst 1af. Danfonodd John Griffiths (Llafur, Dwyrain Casnewydd), Richard Edwards (Llafur, Preseli Penfro), Karen Sinclair (Llafur, De Clwyd) Kirsty Williams (Dem. Rhyddfrydol, Brycheiniog a Maesyfed), Geraint Davies (Plaid Cymru, Y Rhondda) ac Elin Jones (Plaid Cymru, Ceredigion) oll negeseuon yn cefnogi'r weithred a gweithredwyr o Gymru. Ymddiheurodd Richard

Edwards a Karen Sinclair hefyd am na allen nhw fod yno ei hunain.

Cefnogaeth i gynghorwyr a restiwyd

Mae cangen Paisley North o Blaid Genedlaethol yr Alban wedi cefnogi'r cynghorwyr o Renfrewshire, Derek Mackay a Lorraine Cameron a restiwyd yn ystod protest yn Faslane ym mis Awst.

Mae aelodau o gymdeithas eu hetholaeth wedi pasio cynnig o hyder yn y cynghorwyr yn canmol eu safiad ar arfau niwclear. Meddai George Adam, cynullydd yr etholaeth: "Mae'n bleser gennym fod â chynghorwyr yn ein plaid sy'n gosod egwyddor cyn hunan-les. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwrthwynebu gwastraff arfau niwclear felly rydym yn falch iawn i fod â chynghorwyr diwyd sy'n fodlon gwneud rhwybeth ynglyn â'r mater. Maen nhw, ynghyd â'r cannoedd a restiwyd mewn protestiadau heddychlon ledled yr Alban, wedi sicrhau fod cael gwared ag arfau niwclear o'r Alban yn dal i fod ar yr agenda wleidyddol."

Protest Irac yn atal y ffordd yn Whitehall

Cymerodd mwy na 300 o bobl, o rai yn eu nawdegau i blant, ran mewn gwrthdystiad yn Llundain ar 7fed Awst yn galw am ddileu'r sancsiynau yn erbyn Irac, a fu mewn grym ers deng mlynedd erbyn hyn. Cynhaliwyd 'protest farw' y tu allan i'r Swyddfa Dramor yn Whitehall a ataliodd drafnidaieth am hanner awr. Dim ond pedwar gafodd eu restio. Wedi'r digwyddiad hwn, cafwyd munud o dawelwch wrth y senotaff ar gyfer dioddefwyr y sancsiynau. Yn ôl y CU, mae 5,000 o blant dan bump yn marw'n ddianghenraid bob mis o ganlyniad i'r sancsiynau economaidd a orfodwyd ar Irac gan y Cyngor Diogelwch. Yn Washington D.C., restiwyd 104 o bobl ger y T^ y Gwyn yn ystod gweithred debyg. Mae'r nifer o bobl sy'n fodlon mentro cael eu herlyn dros y mater yma yn dangos yn glir mor anfoesol yw'r polisi sancsiynau, neu "blant-laddiad yn ymholni bod yn bolisi", yng ngeiriau trawiadol aelod o Gyngres yr UD.

Protestiwr o Sir Benfo yn atal Olwyn y Mileniwm

Ar 6ed Awst, Dydd Hiroshima, dringodd Dave Rolstone o Efailwen yr "Olwyn Fawr" ar lan afon Tafwys yng nghanol Llundain i brotestio yn erbyn y sancsiynau sy'n dal i fod yn erbyn pobl Irac. Chafodd Dave mo'i gyhuddo o'r un drosedd. Dywedodd "Mae polisi'r llywodraeth hon yn drosedd yn erbyn dynoldeb".

Undebau Llafur yn ymuno ag ymgyrch CND i wrthod "Star Wars"

Mae unarddeg o ysgrifenyddion cyffredinol undebau llafur blaenllaw Prydain, yn cynnwys Bill Morris, y TGWU a Rodney Bickerstaffe, UNISON wedi uno mewn ymgyrch i annog llywodraeth Brydeinig i beidio â chefnogi cynlluniau'r UD am system "Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol" (ATC). Mewn llythyr agored at y Prif Weinidog, maen nhw'n rhybuddio y byddai ATC yn rhwygo heddwch 12

cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig 1972 yn ddwy ac yn annog gwledydd eraill i ddatblygu arfau niwclear. Byddai ATC hefyd yn darparu "tarian" amddiffynnol i'r UD y gallai ei defnyddio i orfodi gwledydd eraill i ufuddhau iddi. Bydd CND yr Undebau Llafur, dan arweiniad Jimmy Barnes, yn annog ei aelodau i ddarbwylllo'r ASau maen nhw'n eu noddi i gefnogi Cynnig Boreol yn condemnio ATC yn Senedd San Steffan yr Hydref yna.

Na i NATO

Ar Hydref 10fed a'r 11eg cefnogodd CND Cymru wrthdystiad CND yn ystod cyfarfod Gweinidogion Amddiffyn NATO yn Birmingham i roi gwybod iddyn nhw nad oes croeso i arweinwyr y gynghrair niwclear yma. Aeth baneri "Na i NATO" a phlacardiau "Pwyntio Bys" â'r neges mor agos at y Ganolfan Gynhadledd Ryngwladol ag oedd modd, dosbarthodd gweithredwyr daflenni i bobl yn y strydoedd a bu gwylnos gyda siaradwyr gyda'r nos. Mae NATO yn gwario £10,000 yr eiliad ar "amddiffyn".



Protestiadau Gibraltar

Er gwaethaf y protestiadau sy'n dal i ddigwydd gan drigolion Gibraltar yn erbyn cynlluniau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i drwsio adweithydd niwclear ar long danfor niwclear yn Harbwr Gibraltar, mae'r llong danfor yn dal wrth angor ger Coaling Island.

Mae'r protestwyr yn cynnwys y mudiadau Voice of Gibraltar, Y Ffederasiwn Busnesau Bach, Y Grwp Ymreolaeth a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig.

Dyw pobl Gibraltar ddim wedi cael digon o wybodaeth am y peryglon. Does dim cyfleusterau arbenigol ar gyfer y faith waith yn Gibraltar a byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn agos at draethau twristaidd yn y cylch. Mae panel o "arbenigwyr" wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddiogel parhau â'r gwaith heb orfod cymryd y cam chwithig o lusgo'r llong danfor yr holl ffordd yn ôl i Devonport. Mae'r holl ddewisiadau'n creu perygl llygredd ymbelydrol.

Gollwng cyhuddiadau yn erbyn diarfogwyr ELF yr UD

Mae Erlynydd Sirol yn Wisconsin wedi penderfynu peidio ag erlyn gweithredwyr heddwch a dorrodd bolion pren yn cynnal gwifrau antenna ar gyfer trosglwyddydd Amledd Eithriadol Isel (ELF) Project Trident yr UD yn Wisconsin. Dygwyd cyhuddiad o niwed bwriadol i eiddo yn erbyn Bonnie Urfer a Michael Sprong yn wreiddiol. Mae erlyniad ffederal yn y mater hwn yn



dal yn bosibl.

Fel "gweithred o ddiarfogi niwclear uniongyrchol ddi-drais ac i atal trosedd", roedd Bonnie a Michael wedi defnyddio lllifiau cyffredin i dorri i lawr y tri pholyn oedd yn cynnal yr antenna ar gyfer y trosglwyddydd Project ELF dadleuol, fel na allodd drosglwyddo am fwy na 24 awr. Mae'r trosglwyddydd yn rhan o system gyfathrebu ar gyfer llongau tanfor Trident. Gosododd Urfer a Sprong hysbysiadu ar y polion yn egluro fod llongau tanfor Trident yn torri cyfreithiau gwladol a rhyngwladol sy'n gwahardd bygwth hil-laddiad ac arfau gwenwynig, a'i fod yn arf trawiad-cyntaf.

Gweithred ddiarfogi mis Mehefin oedd y bumed waith mae gweithredwyr heddwch yn Wisconsin wedi lloio polion ELF fel protest a naill ai ddisgwyl am yr awdurdodau neu fynd i orsaf yr heddlu. Bob tro, mae'r gweithredwyr wedi egluro y gellir cyfiawnhau eu gweithred fel "atal trosedd". Ym 1987 a 1996, cafwyd protestwyr yn ddiuog o gyhuddiadau o ddifrodi gan reithgorau yn Ashland County. Tystiodd arbenigwyr yn y ddau achos fod arfau niwclear yn anghyfreithlon - oherwydd eu pwr dinistriol anwahaniaethol - a bod braw-ataliaeth yn ffurf anghyfreithlon o orfodaeth.

Mae gollwng cyhuddiadau fel a ddigwyddodd yr haf yma yn ddigwyddiad heb ei ail mewn mwy nag ugain mlynedd o brotestio yn erbyn Project ELF.

Er 1991, dygwyd rhyw 554 o gyhuddiadau o dresmasu yn erbyn gweithredwyr yn erbyn rhyfel, sydd yn eu tro yn cyhuddo fod ELF a Trident yn weddillion o'r Rhyfel Oer, yn berygl electrofagnetig i'r amgylchedd lleol, ac yn galluogi llongau tanfor Trident i fygwth ymosodiad niwclear trawiad cyntaf.

Gollwng mwy o gyhuddiadau Plowshares yn yr UD

Gollyngwyd cyhuddiadau yn erbyn pum lleian Plowshares y Ddaear a'r Gofod Sanctaidd. Mae Liz, Carol, Ardeth, Jackie ac Ann rhwng



52 a 73 blwydd oed. Ar ôl torri i mewn i Peterson (Pencadlys Lluoedd Gofod yr UD), dyma dywallt eu gwaed ar loeren ymladd rhyfeloedd Milstar. Fel arwyddair Hitler "Yr Almaen uwch law pawb", arwyddair Lluoedd Gofod yr UD heddiw yw "Meistr y Gofod". Dwedodd y menywod eu bod yn gwrthod "gweledigaeth Lluoedd y Gofod ar gyfer 2020" a'i ymgais i "reoli a thra-lywodraethu ar" y gofod.

Yr awdurdodau yn Chelyabinsk yn condemnio mewnfario gwastraff niwclear

Trefnwyd gwersyll gwrth-niwclear Rwsiaidd a gynhaliwyd yn Chelyabinsk yn yr haf gan ECODEFENSE!, ymgyrch wrth-niwclear yr Undeb Cymdeithasol-Ecolegol a sawl grwp amgylcheddol o Chelyabinsk. Trefnodd gwersyllwyr o ddwsinau o ddinasoedd Rwsiaidd weithred

uniongyrchol ddi-drais ar 3ydd Awst i brotesio yn erbyn mewnfario gwastraff niwclear i Rwsia. Roedd y weithred ddi-drais yn cynnwys atal y fynedfa i swyddfa llywodraethwr Chelyabinsk, ac ymosodwyd yn dreisgar ar y gwrthdystwyr gan yr heddlu. O ganlyniad i'r weithred, fodd bynnag, cytunodd yr awdurdodau i gyfarfod gydag ymgyrchwyr dros yr amgylchedd ar y 7fed Awst.

Mae'n bosibl y cafwyd llwyddiant buan gan fod arweinwyr pedwar grwp amgylcheddol wedi cyhoeddi canlyniadau positif i'r cyfarfod gydag Is-Lywodraethwr rhanbarth Chelyabinsk, Andrey Kosilov. Mae amgylcheddwyr a Kosilov bellach wedi cytuno na ddylid mewnfario unrhyw wastraff niwclear i'w storio yng nghyfleuster Mayak. Dywedodd yr Is-lywodraethwr hefyd ei fod eisoes wedi gofyn i grwp arbenigol astudio'r cynigion a gyflwynwyd gan y gwersyll gwrth-niwclear i wella 'amddiffyniad cymdeithasol' dinasyddion sy'n byw mewn mannau yn rhanbarth Chelyabinsk sydd wedi eu llygru ag ymbelydredd.

Meddai Vladimir Sliviyak, ymgyrchydd gwrth-niwclear a chyfarwyddwr ECODEFENSE, "Croesawu safiad is-lywodraethwr Chelyabinsk. Storio gwastraff niwclear tramor yn Rwsia yw syniad mwyaf gwallgof dynion busnes Minatom."

am fwy o wybodaeth, cysyllter â: Vladimir

heddweithred! Sliviyak,
tel: +7(095)7766281
e-bost: ecodefense@glasnet.ru


Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid



Mae CRMHR wedi bod yn weithgar yn ne Cymru yn codi arian am eu gwaith ar hawliau dynol, hawliau menywod, gwaith yn erbyn hiliaeth, cyfiawnder economaidd, gwrthwynebu bydeangu, gweithio dros heddwch a diarfogi, trefnu i goffáu Hiroshima a Nagasaki ac ymgyngori gydag Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant, Rosemary Butler AC sydd hefyd yn aelod o CRMHR. Cafodd y newyddion fod Cymru'n mynd i benodi Comisiynydd Plant ei gymeradwyo gan CRMHR a'i weld fel cyfle i hybu achos hawliau plant yng Nghymru a'r byd.

heddweithred! Cyswllt CRMHR yn ne Cymru: Ruth Osborn, 10, Melborne Way, Casnewydd NP20 3RE (01633) 251 548

Rhincian dannedd - y gwirionedd am lygredd niwclear



Mae'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-Isel yn galw ar bobl i ddanfôn dannedd babi eu plant atyn nhw er mwyn iddyn nhw allu ymchwilio i effeithiau ymbelydredd ar iechyd y cyhoedd. Mae dannedd yn datgelu lefelau llygredd.

heddweithred! Os gallwch helpu, neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ymgyrch yn: The Knoll, Parc Montpellier, Llandrindod LD1 5LW tel. 01597 824 771

dyddiadau dyddiadur

Sadwrn 28 Hydref Y Deml Heddwch, Parc Cathays, CAERDYDD 10.30am - 1pm GWYL HEDDWCH CYNEFIN Y WERIN yn dathlu Blwyddyn Ryngwladol Diwylliant o Heddwch a Degawd Rhyngwladol Diwylliant o Heddwch a Dim Trais ar gyfer Plant y Byd (2001- 2010). DAWNS, CERDD A CHÂN a siaradwyr gwâdd BRUCE KENT a SAM PERLO FREEMAN Am fanylion pellach, cysyllter â Richard G Jones Tel (029) 2022 8549/2039 5664 e-bost richardjones@wcia.org.uk

Tachwedd 4ydd-5ed Manceinion. Cynhadledd Ryngwladol yn erbyn Arfau Wraniwm Hesb. Gweler tud. 5.

Tachwedd 11eg 10.30am Y Deml Heddwch, Caerdydd Seminar "Datblygu Diwylliant o Heddwch" gyda Rowan Williams, Archesgob 'Radicalaidd' Cymru, ac eraill. Croeso i bawb. Cysyllter â Richard Jones Tel (029) 2022 8549/2039 5664 e-bost richardjones@wcia.org.uk

Rhagfyr 1af Diwrnod Carcharorion dros Heddwch, cysyllter â War Resisters International d/o Peace News (020 7278 3344) am fwy o wybodaeth.

Rhagfyr 6ed 2.30 ymlaen Pwysu ar y Senedd dros Heddwch, trefnwyd gan Weithredu dros Adnewyddu'r CU. Cymerwch ran! Cysyllter ag Anna Rehin (01273) 476 358.

Rhagfyr 12fed 7pm Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Cyfarfod cyhoeddus, ATAL MILITAREIDDIO'R GOFOD, ATAL AMDDIFFYN TAFLEGRAU CENEDLAETHOL YR UD gyda Bruce Gagnon (Cydgysylltydd y Rhwydwaith Bydeang yn erbyn Arfau ac Ynni Niwclear yn y Gofod) a Helen John, ymgyrchydd gweithredu uniongyrchol Prydeinig

Taith Siarad Merched Gogledd Iwerddon

Y mae Cymdeithas y Cymod yn trefnu taith siarad trwy Gymru er mwyn inni fel Cymry glywed yr hanesion sy'n deillio o Ogledd Iwerddon am obaith a chymod ar waith yn y gymuned rwygedig yno. Y mae Mudiad Merched mewn Undod yn Cerdded Ymlaen wedi bod wrthi ers chwarter canrif, ar draws y ffiniau crefyddol yn gweithio tuag at ddyfodol mwy cyfiawn a chynhwysol. Bydd eu neges o gymorth mawr i ninnau gyhoeddi yma yng Nghymru Ddegawd y Cenhedloedd Unedig dros Ddiwylliant Didreisedd. Dyma'r manau a'r dyddiadau y gellir clywed cynrychiolwyr y mudiad merched Gwyddelig yn cyhoeddi eu neges bwysig ac amserol:

BANGOR 6 Tach. Nov. Llun / Monday
PORTHMADOG 7 Tach. Mawrth ABERYSTWYTH 8 Tach. Mercher CAERFYRDDIN 9 Tach. Iau
CAERDYDD 10 Tach. Gwener Am fwy o fanylion cysylltwch ag Ifanwy Williams : 01766 513644



Clifford &

heddwch 14

GALW POB MYFYRIWR!

Blwyddyn [academaidd] newydd, tymor newydd - GWAED newydd! Na, dyw CND Ieuenctid a Myfyrwyr ddim wedi troi'n fampiriaid, ond RYDYM yn lansio Rhwydwaith CND Myfyrwyr newydd, â'r nod benodol o wneud diarfogi niwclear yn bwnc llosg mewn prifysgolion a cholegau ledled Prydain drwy sefydlu grwpiau ymgyrchu newydd. Eisoës, mae grwpiau newydd mewn sawl prifysgol. Bydd Rhwydwaith Myfyrwyr CND yn cael ei lansio'n "swyddogol" yn Sheffield yn yr hydref, ac mae cynlluniau chwilboeth ar y gweill am y misoedd nesaf. Am fwy o fanylion, cysyllter â'r swyddfa ar 0207 607 3616 neu e-bost: studentcnd@yahoo.com

cysylltiadau cnd cymru

Golygydd heddwch ac Ymholiadau Cyffredinol:

Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy,
Llanymddyfri SA20 0LR
(01550) 750260 e: heddwch@fdn.co.uk

Cadeirydd:

David Morris
(01792) 206968

Is-Gadeiryddion:

Gogledd Cymru
Dave Andrews (01978) 310491

Y Canolbarth
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260

De Cymru
Ray Davies (029 20) 889514

Mwy o wybodaeth, syniadau, neu gymorth i'w gynnig?
Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND agosaf



Aelodaeth

Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

Cysylltiadau:

Rhoda Jones (01766) 762739

Masnachu

Jan Henderson (01792) 830330

Trysorydd

Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Porth, Y Rhondda CF39 9DE

Gweithwraig Seneddol:

Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch, Powys LD4 4ED

Cwynion am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel: ffonwch yr MoD:

020 7 218 6020

heddwch yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru). Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd. Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os gwelwch yn dda.

Golygu a chysodi gan Jill Stallard (01550) 750260 (heddwch@fdn.co.uk)

Cyfeithu gan Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)

Argraffwyd gan Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)

Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyfya hon, am brynawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330